# *Taith Gerdded Treftadaeth*
# Llandrillo-yn-Rhos

www.colwynbayheritage.org.uk

Mae'r llyfryn hwn ar gael yn Saesneg hefyd



# *Taith Gerdded Treftadaeth* Llandrillo-yn-Rhos





Nod y canllawiau hyn yw eich tywys ar daith o amgylch pentref deniadol Llandrillo-yn-Rhos a'ch cyflwyno i'w dreftadaeth hanesyddol hynod gyfoethog. Mae gan Landrillo-yn-Rhos gysylltiadau cryf gydag amrywiaeth annisgwyl o gyfnodau a digwyddiadau hanesyddol gan gychwyn yn oes y Rhufeiniaid, drwy gyfnod y seintiau Celtaidd, yr Oesoedd Canol, cyfnod y Frenhines Elizabeth, hyd heddiw. Defnyddiwch y daith gerdded hon i ganfod nifer o adeiladau a safleoedd hanesyddol a dysgu am y bobl ddiddorol sy'n gysylltiedig â rhai ohonynt.

Bydd prif ran y daith yn cymryd oddeutu awr yn ardal y promenâd. Mae tri estyniad dewisol wedi'u hychwanegu i'r bobl hynny sydd â mwy o amser ac egni. Byddai'r daith gyfan, gan gynnwys y llwybr hyfryd i fryngaer Bryn Euryn (mae'n sicr yn werth mynd i weld y golygfeydd gwych), yn cymryd rhwng 3 a 3½ awr. Gan fod y daith yn gylchol, gallwch ymuno ar unrhyw bwynt. Mae'r cyfarwyddiadau wedi'u nodi mewn glas ac mae gan y mannau o ddiddordeb rif ac felly'n hawdd eu dilyn. Mae nifer o gaffis a siopau te rhagorol yng nghanol Llandrillo-yn-Rhos, a byddwch yn mynd heibio tafarndai sy'n gweini bwyd ar y daith, felly bydd digon o gyfleoedd i chi orffwys a mwynhau tamaid i'w fwyta. Mae nifer o feinciau ar hyd y daith hefyd os hoffech chi gymryd seibiant i fwynhau'r awyrgylch hyfryd!

Mae llefydd i barcio ar hyd y rhan fwyaf o'r promenâd. Mae dau faes parcio gerllaw yn ogystal (wedi'u nodi gyda P ar y map). Felly, gallwch ddechrau'r daith ar y rhif agosaf i'ch man parcio pe dymunech.

**Cychwynnwch yng Nghapel Sant Trillo ar Marine Drive.**

## 1. Capel Sant Trillo

Credir mai'r adeilad hynod hwn yw'r capel lleiaf yn Ynysoedd Prydain, gan mai lle i chwech o bobl sydd ynddo i gyd. Mae wedi ei enwi ar ôl Sant Trillo, sant Celtaidd o'r 6ed ganrif a gododd ei gell yma. Ni wyddys beth yw oed yr adeilad presennol, gan ei fod wedi ei atgyweirio'n helaeth dros y canrifoedd. Mae'n debyg mai o blethwaith a phren y gwnaed y gell wreiddiol, ac efallai iddo godi wal o gerrig a gasglwyd o'r traeth i'w amddiffyn rhag y gwynt.





Ewch i mewn i'r capel os yw ar agor. Saif ar safle ffynnon hynafol. Yma y câi Sant Trillo ei ddŵr yfed, a byddai hynny wedi bod yn ffactor a'i hysgogodd i ddewis y safle hwn. Gallwch weld y ffynnon o hyd o flaen yr allor. Am ganrifoedd lawer defnyddiwyd dŵr y ffynnon i fedyddio babanod o bob cwr o blwyf canoloesol Llandrillo. Yn ogystal â hyn, yn yr hen amser roedd i'r ffynnon draddodiad o fedru iacháu pobl. Cynhelir gwasanaethau cymun yn rheolaidd yn yr Eglwys o hyd, mae'n anhygoel meddwl eich bod chi'n sefyll ar safle a fu'n ganolfan addoli i Gristnogion am ryw 1500 o flynyddoedd!

Fel rheol byddai'r mynachod Celtaidd yn codi magwyrydd o amgylch eu celloedd fel y medrent amaethu i'w bwydo eu hunain. Gelwid hwn yn "Llan." Dyma sut y cafodd Llandrillo-yn-Rhos ei enw. Golyga rhos yr un peth â chors ac felly'r ystyr yw Llan Sant Trillo ger y gors. Roedd yr ardal o amgylch yn gorsog am mai ynys ydoedd yn wreiddiol a ffurfiwyd gan ddwy gangen o'r afon leol.

*Pan fyddwch yn gadael y capel, dilynwch y llwybr troed ar hyd y morglawdd i gyfeiriad canol Llandrillo-yn-Rhos.*

## 2. Cored Bysgota Rhos Fynach

Edrychwch yn fanwl ar y traeth i'r chwith i chi. Pan fydd y llanw'n isel, gallwch weld olion sylfeini Cored Bysgota Rhos Fynach sy'n dyddio o'r canol oesoedd, un o blith llawer y daethpwyd o hyd iddynt ar hyd arfordir Cymru. Arferai fod dwy gored bysgota yn Llandrillo-yn-Rhos. Roeddent ar ffurf magwyrydd mawr siâp V wedi ei wneud o wiail. Pan fyddai'r llanw'n uchel, byddai'r pysgod yn nofio i mewn iddynt, ac yn cael eu dal mewn pwll pan fyddai'r llanw'n mynd allan. Roedd coredau o'r fath mor effeithiol nes iddynt beryglu'r stoc bysgod erbyn oes Fictoria, yn enwedig yr eog. Felly ym 1861 pasiodd y Senedd ddeddf yn gorchymyn eu dinistrio. O ganlyniad, cafodd y gored arall yn Llandrillo-yn-Rhos ei dileu. Fodd bynnag roedd eithriad i'r gyfraith newydd lle gallai'r perchennog brofi bod ei gored yn bodoli cyn y Magna Carta (h.y. 1215 AD). Medrai perchennog cored Rhos Fynach brofi ei gwreiddiau canoloesol gan fodloni'r comisiynwyr, ac o'r herwydd ni chafodd ei dinistrio – sy'n brawf pellach o hynafiaeth pentref Llandrillo-yn-Rhos. Roedd y gored yn hynod effeithiol a gallai ddal llwythi enfawr o bysgod. Er enghraifft, ym 1850 daliwyd 35,000 o benwaig mewn noson! Daliwyd siarc 8 troedfedd yn y gored ym 1865, a'i arddangos ym marchnad Llandudno. Dro arall, ym 1907, daliwyd 10 tunnell o fecryll ar un llanw (mae 10 tunnell yn fwy na 10,000 cilogram yn ein mesuriadau metrig ni heddiw).



Bu perchennog diwethaf y gored, John Parry Evans, yn hyfforddi daeargwn i godi eogiaid o'r gored. Cymaint yr edmygid y ci cyntaf iddo ei hyfforddi, Jack, nes iddo ennill coler arian a dod yn atyniad poblogaidd i dwristiaid.

Yn anffodus bu farw ym 1873 ar ôl cael ei anafu'n ddifrifol gan siarc arall a ddaliwyd yn y gored! Mae'r hen lun yn dangos un o'i olynwyr, ci o'r enw Carlo, wrth iddo drotian yn llawn balchder yn dal eog mawr yn ei geg y mae newydd ei dynnu o'r gored y tu ôl iddo. Mae'r ffotograff hwn yn ddiddorol am reswm arall hefyd, am ei fod yn dangos yn glir y ffordd mae'r gored wedi ei adeiladu gyda ffens o blethwaith. Aeth y gored yn anarferedig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ac fe dynnwyd ei stanciau yn ddiweddarach yn anffodus am eu bod yn beryglus i gychod.



***Ewch yn eich blaen nes i chi gyrraedd Rhos Point ar y chwith. Ar adeg ysgrifennu'r canllawiau hyn, roedd Rhos Point wedi mynd yn adfail gyda chynlluniau i'w ail ddatblygu.***

## 3. Swyddfa Docynnau Wreiddiol y Pier
## 4. Gweddillion Stemar

Yma'r arferai'r Pier sefyll a'r adeilad cerrig wythochrog a ddylai fod yno o hyd oedd Swyddfa Docynnau wreiddiol y Pier. Ar un cyfnod roedd gan Llandrillo-yn-Rhos bier sylweddol iawn 1500 troedfedd o hyd (a brynwyd yn ail law o Douglas yn Ynys Manaw ym 1895!). Roedd y "Colwyn Bay & Liverpool Steamship Co" yn cynnal gwasanaeth stemar rheolaidd i deithwyr am flynyddoedd lawer rhwng Lerpwl a Chaergybi ac yn defnyddio'r pier hwn i ollwng teithwyr ar gyfer Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn.



Ym 1908, suddodd stemar o'r enw Rhos Neigr wrth geisio docio wrth y pier i gasglu 75 o deithwyr. Gallwch weld peth o ddrylliad y stemar pan fydd y llanw'n isel iawn ychydig gannoedd o lathenni allan i gyfeiriad y môr ac i'r chwith i'r Pier gwreiddiol (wedi ei ddangos gyda bwi glas). Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, tynnodd y Fyddin Gartref lawer o blanciau'r pier i ffwrdd, fel y byddai unrhyw filwyr Almaenaidd a fyddai'n ceisio defnyddio'r pier i oresgyn yn y nos yn syrthio trwy'r tyllau!




***Edrychwch ar draws y ffordd (i'r chwith o'r gyffordd gyda Ffordd yr Abaty a thu ôl i'r adeiladau modern a'r "golff mini"), a byddwch yn gweld tafarn a bwyty Rhos Fynach.***

## 5. Rhos Fynach

Darganfuwyd chwe darn arian Rhufeinig mewn cyflwr gwych sy'n dyddio o oes Cystennin Fawr mewn hen ddraen gerrig yn yr ardd yma, ac felly mae'n bosib bod gan y safle hynafol hwn gysylltiadau â'r oes Rufeinig. Yn y Canol Oesoedd, credir bod tŷ'n sefyll ar y safle hwn a berthynai i'r mynachdy Sistersaidd mawr ym Maenan yn Nyffryn Conwy a adwaenid fel Abaty Aberconwy. Os felly, byddai'r mynachod a oedd yn gyfrifol am gasglu pysgod o'r gored hynafol yr ydym newydd fynd heibio wedi ei defnyddio fel lle i aros dros nos. (Mae traddodiad bod mynach mewn gwisg frown a chlogyn gwyn i'w weld o hyd yn yr adeiladau!). Mae siarter gan Llywelyn Fawr dyddiedig 1230 yn nodi bod holl hawliau tir "Ros Veneych" wedi eu prynu gan ei brif gynghorydd, Ednyfed Fychan "ar yr amod ei fod yn talu rhent o 2 swllt y flwyddyn (10c yn arian heddiw!) i dalu am lampau eglwys y plwyf dros y Pasg". Roedd Ednyfed yn ffigur pwysig yn hanes Cymru. Roedd yn berchen ar faenordy wrth droed Bryn Euryn, y bryn y tu

ôl i Landrillo-yn-Rhos (gwelwch **17. Llys Euryn** ar estyniad B y daith gerdded hon). Rydym hefyd yn gwybod yn ôl siarter bod Rhos Fynach, ynghyd â'i thiroedd a'i hawliau pysgota (h.y. y gored yr ydym newydd fynd heibio), wedi eu rhoi i'r Capten Henry Morgan ym 1575 gan Iarll Caerlŷr am 6 cheiniog! Fe'u rhoddwyd ar y telerau ffafriol hyn "er cydnabod y gwasanaethau a roes ef ar y môr rhag gelynion y Frenhines." Mewn geiriau eraill, roedd y Capten Morgan yn fordwywr yn nhraddodiad Drake, herwlongwr na phoenai a oedd Lloegr mewn rhyfel yn erbyn y llongau yr ymosodai arnynt neu beidio. Yn anffodus, nid dyma'r Capten Morgan hwnnw, y môr-leidr hynod (yr hwn yr enwyd y rym enwog ar ei ôl), er gwaetha'r sibrydion sy'n mynnu fel arall.



***Ewch yn eich blaen ar hyd y promenâd.***

## 6. Cayley Flyer

Adeiladwyd yr harbwr bychan sydd ar y chwith yn gymharol ddiweddar pan godwyd y morglawdd i atal llifogydd yn y tai ar y ffrynt.

Ewch yn eich blaen i'r Cayley Flyer. Edrychwch ar y llun ar wal allanol y dafarn hon. Mae hwn yn dangos bod cysylltiad gwirioneddol rhwng Llandrillo-yn-Rhos a datblygiad hedfan yn fyd eang. Roedd y teulu Cayley yn berchnogion tir mawr yn lleol a gwelir ôl eu dylanwad yn llawer o'r enwau strydoedd lleol, gan gynnwys Promenâd Cayley (a'i glawdd gwyrdd deniadol) sydd ar y chwith i chi. Mae'r llun ar y dafarn yn coffáu un o'u hynafiaid, Syr George Cayley o Brompton ger Sawley yn Swydd Efrog, dyfeisiwr o fri y gellid dadlau mai ef oedd gwir arloeswr hedfan. Darganfu egwyddorion allweddol eronoteg

a'i galluogodd i ddylunio peiriant hedfan ymarferol 50 mlynedd cyn y brodyr Wright. Ym 1853, adeiladodd Syr George beiriant a allai gludo pwysau dyn. Gelwid y gleider hon yn "Cayley Flyer" (ond mae'n sicr bod ei gynllun yn wahanol i'r darlun ar wal y dafarn) a braenarodd y tir i'r brodyr Wright a lwyddodd i hedfan awyren gyda phŵer ym 1903. Bu i'r brodyr Wright gydnabod eu dyled iddo'n llawn. Bu i'r Cayley Flier hedfan am ryw 900 troedfedd dros Brompton Dale cyn cwympo. Dyma'r ehediad cyntaf mewn hanes mewn awyren a oedd ag adenydd sefydlog, a theg yw dweud mai Syr George Cayley a ddyfeisiodd yr awyren. Mae'n ddiddorol na fu i Syr George hedfan yr awyren drosto ei hun (er tegwch iddo, roedd yn 80 oed ar y pryd). Yn hytrach, gorchmynnodd i'w goetsmon druan (John Daley) ei hedfan drosto. Teg dweud nad oedd John Daley'n falch o gael cymryd rhan yn yr arbrawf pwysig hwn a'i fod yn fwy pryderus am y peryglon iddo ef fel peilot. Ar ôl mynd trwy'r profiad unigryw ac arswydus hwn, fe ymddiswyddodd yn y fan a'r lle, gan ddweud "Please, Sir George, I wish to give my notice. I was hired to drive, not to fly" – ymateb digon rhesymol! Mae'n syndod cyn lleied o sylw a gafodd Syr George ym Mhrydain am ei gamp fawr – mae'n llawer mwy adnabyddus yn America. Fodd bynnag, yn Llandrillo-yn-Rhos o leia' mae'n cael peth cydnabyddiaeth yn enw'r dafarn ac enwau'r strydoedd lleol.

***Ewch yn eich blaen ar hyd y promenâd.***

Sylwch ar hen fythynnod y pysgotwyr ar y dde i chi, a'u gerddi deniadol. Sylwch mor isel yw'r adeiladau, sy'n dangos bod y tir wedi ei godi yn oes Fictoria er mwyn adeiladu'r Promenâd.

***Ewch yn eich blaen ar hyd y promenâd. Yn fuan ar ôl i chi fynd heibio'r gerddi blodau hyfryd, sylwch ar y Gofgolofn i'r Parch W Venables Williams ar y dde i chi.***

## 7. Cofgolofn i'r Parch W Venables Williams

Codwyd y gofgolofn hon trwy danysgrifiad cyhoeddus "er cydnabod y myrdd wasanaethau cyhoeddus" a wnaeth i'r ardal. Bu'n ficer plwyf Llandrillo-yn-Rhos am 31 o flynyddoedd, a bu'n flaenllaw mewn llawer o ddatblygiadau yn Llandrillo-yn-Rhos ac ym Mae Colwyn. Fodd bynnag, roedd yn ffigwr dadleuol hefyd. Er enghraifft, gwrthwynebai'r ffermwyr lleol a alwai am

ostwng y degwm yn ystod chwerwedd "rhyfeloedd y degwm" yn yr ardal. Roedd y rhain mor ddifrifol nes y bu'n rhaid anfon milwyr i dawelu'r terfysgoedd ym mhentref Mochdre gerllaw. Bu i derfysgwyr losgi eglwys genhadol Venables Williams ym Mae Colwyn ac fe gafodd lythyr anhysbys yn bygwth dinistrio ei ficerdy os na fyddai'n cytuno i ostwng y degwm! Ceisiai hefyd atal tref lan môr newydd Bae Colwyn rhag gwahanu oddi wrth ei blwy mawr ef, Llandrillo-yn-Rhos ym 1893. Fe aeth cyn belled â deisebu'r senedd, ac fe ysgrifennodd at y Frenhines Fictoria yn ei ymdrech i atal Bae Colwyn rhag dianc o'i afael!

***Croeswch y ffordd yn ofalus ac ewch yn eich blaen ar hyd y palmant i'r hen adeilad cerrig sydd â 3 simnai amlwg.***

## 8. Hen Adeilad Carreg (Aberhod)

Hen enw'r adeilad hwn oedd Aberhod ac, erbyn hyn, mae wedi ei addasu'n dai mewn modd sy'n cadw'r adeilad craidd fel ag yr oedd, gydag unedau tai modern ychwanegol wedi eu gwasgu'n weddol dynn i mewn i'r safle. Mae'r adeilad hyfryd hwn yn un o'r adeiladau hynaf yn Llandrillo-yn-Rhos ac fe'i seiliwyd ar ffermdy o'r 17eg ganrif. O'i weld ar fap o 1763, mae'n eithaf pell yn ôl o'r môr, sy'n dangos sut mae'r môr wedi meddiannu traethlin y bae dros y canrifoedd diwethaf.



***Edrychwch ar yr iard sydd ar yr ochr chwith i Aberhod.***

## 9. Theatr Bypedau Harlequin

Agorwyd hon ym 1958, a dyma'r theatr bypedau bwrpasol gyntaf erioed ym Mhrydain. Mae'n dal i lwyfannu sioeau pypedau safonol iawn. Dros y blynyddoedd, mae ei pherchnogion wedi creu nifer o raglenni pypedau i raglenni plant y BBC.

Os cewch chi'r cyfle, mae'r cynyrchiadau'n werth eu gweld, yn enwedig os oes gennych blant i'w difyrru. Mae'r tu mewn ar ddull theatr draddodiadol ac yn gymysgedd ecsentrig ond hyfryd o blwsh aur a choch, wedi ei gyfuno â ffresgoau Eidalaidd a gwaith plastro addurnol. Mae bwa prosceniwm aur yn fframio llwyfan lle ceir perfformiadau gyda phypedau 60cm. O flaen hwn mae llwyfan ffedog fawr a ddefnyddir i gyflwyno pypedau arddull cabaret, a'r enwocaf yw'r Harlequin. Mae'n werth ymweld yn bendant.



***Ewch yn eich blaen ar hyd y palmant i fyny'r allt. Ar y gornel lle saif Gwesty Mount Stewart, croeswch Ffordd Whitehall yn ofalus (sylwch ar yr hen gafn ceffylau ar waelod yr allt). Edrychwch yn ôl ar hynodrwydd Gwesty Mount Stewart.***



Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, cafodd y gwesty hwn, ynghyd â'r holl westai eraill oedd i'w cael yn Llandrillo-yn-Rhos ar y pryd, ei feddiannu gan y Weinyddiaeth Fwyd. Roedd y Weinyddiaeth Fwyd yn hanfodol i gadw pobl Prydain yn fyw yn ystod y rhyfel. Hwn oedd yn cydgordio

dosbarthiad y cyflenwadau bwyd, hwn gychwynnodd y dogni ac a hyrwyddodd y propaganda am ffyrdd gwahanol o goginio fel bod pobl yn gallu ymestyn y bwyd cyfyngedig iawn oedd ganddynt yn eu cypyrddau. Cafodd ei bencadlys, ynghyd â'i 5,000 o weision sifil, eu symud o Lundain i Fae Colwyn. Canolfan yr adran oedd y Colwyn Bay Hotel ganllath neu ddau ymhellach i lawr y Promenâd, er bod hwn wedi ei chwalu erbyn hyn yn anffodus, ac mae fflatiau yno yn ei le.

Dylech allu dysgu rhagor am y Colwyn Bay Hotel a'i hanes, ynghyd ag agweddau diddorol eraill o nodweddion hanesyddol y Promenâd o Lwybr Realiti Estynedig sy'n cynnwys Promenâd Bae Colwyn a oedd wrthi'n cael ei baratoi ar adeg ysgrifennu hwn.

Wrth gwrs, ni allai'r Colwyn Bay Hotel roi lle i bob un o'r 5,000 o weision sifil, felly meddiannwyd yr holl westai lleol eraill gan gynnwys y rheiny yn Llandrillo-yn-Rhos, fel y Mount Stewart. O'r gwesty hwn y rhedwyd yr adrannau "Cynhyrchion Grawnfwyd" a "Bacwn a Ham". Yn yr un modd, roedd Gwesty'r Mount Royal gerllaw (sydd wedi ei droi'n fflatiau erbyn hyn) yn cynnal yr adrannau "Bwyd Lles" a "Te".

***Cerddwch ar hyd rhan uchaf Promenâd Cayley, lle mae golygfeydd hyfryd o'r môr. Oedwch y tu allan i'r Moryn.***



## 10. Moryn

Dyluniodd y pensaer blaenllaw, Sidney Colwyn Foulkes y tŷ hynod hwn iddo ef ei hun. (Mae wedi cael estyniadau mawr ar y blaen mewn arddull wahanol yn ddiweddar). Dyluniodd nifer o adeiladau pwysig ym Mae Colwyn a

Llandrillo-yn-Rhos, ar ffurf lled Sioraidd fel hwn gan mwyaf. Sylwch ar yr afalau pîn carreg ar y to ar yr ochr dde i'r tŷ, sy'n thema y dychwelwn ati'n ddiweddarach yn y daith hon. Ef ddyluniodd y ddau fyngalo cain eu golwg ar y dde hefyd.

***Mwynhewch yr olygfa hyfryd o'r bae.***


Tua dwy filltir i ffwrdd i'r dwyrain, y tu hwnt i Borth Eirias, fe welwch chi bentir ar ben y Bae, a phont ar ffurf hanner cylch wrth ei odre. Dyma DRWYN PENMAEN. Digwyddodd rhywbeth o bwys hanesyddol cenedlaethol yn y fan yma. Arferai'r pentir ymestyn hyd at y môr nes iddo gael ei gloddio mewn blynyddoedd mwy diweddar ac roedd yn anodd iawn ei groesi. Er nad yw'r hanes yn hysbys iawn yn lleol, yma y daethpwyd â llinach brenhinoedd Plantagenet Lloegr i ben a hynny ym 1399 pan ymosodwyd ar y Brenin Richard II. Roedd Richard wedi mynd â byddin i ymladd yn Iwerddon. Tra'r oedd y brenin i ffwrdd, bu i Henry Bolingbroke (Henry IV yn ddiweddarach) arwain gwrthryfel yn Lloegr. Ymgasglodd byddin Richard yng Nghonwy gerllaw, ond bu Richard yn ddigon ffôl i oedi yn Nulyn. Cafodd ei fyddin lond bol ar aros amdano gan ymwasgaru. Erbyn i Richard gyrraedd Conwy, ychydig iawn o filwyr oedd ar ôl. Felly caeodd ei hun yng nghastell Conwy, castell y credid nad oedd modd ei feddiannu. Trwy ystryw, llwyddodd Iarll Northumberland i ddenu Richard o'r castell trwy addo heddwch. Heb yn wybod i Richard, roedd Northumberland wedi cuddio ei farchoglu yn Nhrwyn Penmaen. Dim ond 23 o'i ddilynwyr oedd gan Richard gydag ef ac wrth i'w fintai ddilyn y llwybr anodd dros Drwyn Penmaen, ymosododd milwyr Northumberland arno. Fe'i carcharwyd yng nghastell y Fflint, lle bu iddo gyfarfod Bolingbroke yn ddiweddarach a chafodd ei orfodi i ildio'r goron. Flwyddyn yn ddiweddarach, bu farw dan amgylchiadau amheus yn nwnsiwn castell Pontefract, a oedd yn gyfleus iawn i Henry IV.



***Ewch yn eich ôl o ble daethoch chi a throwch i'r chwith i Ffordd Ebberston. Oedwch wrth y gyffordd â Ffordd Kenelm ac edrychwch draw at Awen.***

## 11. Awen

Bu'r tŷ hwn yn gartref i Alvin Langdon Coburn am 19 mlynedd olaf ei fywyd, hyd ei farw ym 1966. Roedd yn ffotograffydd arloesol ac yn flaenllaw iawn yn ei gyfnod. Bu'n gyfaill i Lloyd George, a roddai groeso iddo yn 10 Stryd Downing. Tynnodd bortreadau ffotograffig o nifer o bobl enwog, megis H G Wells, Mark Twain, George Bernard Shaw, Charles Dodson (Lewis Carroll), Sibelius a Holst. Mae ei bapurau ar gadw yn llyfrgell Bae Colwyn, gan gynnwys llyfrau sydd wedi eu llofnodi a thystebau gan lawer o'r bobl enwog yma. Dyma sut y cafodd ei ddisgrifio gan Shaw, er enghraifft: "one of the most sensitive artist-photographers now living."




***Trowch i'r dde i fyny Ffordd Kenelm a cherddwch at ei phen. Edrychwch ar draws Ffordd Whitehall at Cliffe House ar gornel chwith St Georges Road.***

## 12. Cliffe House

Y fila Fictoraidd yma oedd y cartref ymddeol cyntaf i lysieuwyr yng Nghymru. Mae'n ddiddorol nodi bod Bae Colwyn yn ganolfan brysur i lysieuwyr ar ddiwedd oes Fictoria. Mae'r tŷ'n nodedig hefyd am fod Leonora Cohen wedi byw yma. Roedd hi'n swffragét flaenllaw a ddaeth i enwogrwydd cenedlaethol ym 1913 pan lwyddodd i falu casys gemwaith Tŵr Llundain yn rhan o'r ymgyrch i ennill y bleidlais i ferched.

***MAE DEWIS GENNYCH NAWR – MYND YN ÔL I'R DECHRAU, NEU GERDDED ESTYNIAD A (Gwelwch dudalen 15).***

***I fynd yn ôl i ddechrau'r daith gerdded, trowch i'r dde i lawr Ffordd Whitehall hyd at lan y môr a throwch i'r chwith. Pan ddewch chi at Ros Fynach unwaith yn rhagor (5), cerddwch hyd yr ochr chwith i'r dafarn i gael gwell golwg ar yr hen adeiladau. Yna ewch yn syth yn eich blaen gan gerdded drwy'r parc bach dymunol. (Arferai fod pwll nofio awyr agored prysur yn y fan yma). Ewch allan o'r parc yn y gornel ar y dde, a throwch i'r chwith i fyny Ffordd yr Abaty. Oedwch cyn i chi gyrraedd cornel Coedlan Trillo.***



Edrychwch i fyny i'r chwith a byddwch yn gweld bryn amlwg yn codi tu ôl i ardal drefol Llandrillo-yn-Rhos. Bryn Euryn yw hwn. Mae'n cynnig golygfeydd ysblennydd i bob cyfeiriad a dyma oedd safle'r gaer Frythonig-Rufeinig yn ogystal â llys canoloesol Ednyfed Fychan, prif gynghorydd Llywelyn Fawr. Os nad ydych yn cerdded estyniad B o'r daith gerdded hon, gallwch ganfod rhagor am hanes diddorol y bryn hwn drwy ddarllen adrannau 17 ac 18 yn y canllaw hwn.



***Trowch i'r dde i Goedlan Trillo ac oedwch y tu allan i rifau 4 a 6 Coedlan Trillo ar y dde.***

## 13. Rhifau 4 a 6 Coedlan Trillo

Mae'r adeiladau rhestredig hyn yn enghreifftiau da o'r arddull Gelf a Chrefft. Roedd y symudiad hwn yn adwaith yn erbyn y gormodedd a'r gor-addurno a nodweddai lawer o bensaernïaeth oes Fictoria ac anelai at ddychwelyd at ddyluniadau traddodiadol y crefftwyr gwledig. Gwelir hyn yn arddull syml y ddau dŷ, a'u tu allan o render garw, cwarelau bychain y ffenestri, a'r toeau o lechi Llanberis a siapiau diddorol y simneiau. Fe'u dyluniwyd gan North a Padmore, partneriaeth bensaernïol o Lanfairfechan. Mae Cadw'n dweud mai Herbert Luck North oedd "pensaer Celf a Chrefft gorau ei oes yng Nghymru".

***Trowch i'r chwith ar Marine Drive. Bellach rydych yng Nghapel Sant Trillo eto. Os ydych yn teimlo'n egnïol, gallech gerdded estyniad C (gwelwch dudalen 27).***

***I GERDDED ESTYNIAD A, trowch i'r chwith ar Ffordd Whitehall, a chroesi'r ffordd.***

## 14. Y Ffynnon

Sylwch ar y ffynnon yng ngardd flaen rhif 9A. Er bod y tŷ a'r wal o amgylch y ffynnon yn fodern, mae'r ffynnon ei hun yn llawer hŷn – o bosib yn ganoloesol.


***Croeswch y gylchfan, a cherddwch i fyny Ffordd Ebberston Road West.***

Saif y ffordd hon ar safle lôn a arweiniai i Faddondy ar lan y môr yn y dyddiau cyn i Landrillo-yn-Rhos gael ei adeiladu.

***Hanner ffordd i fyny'r ffordd, trowch i'r dde ar hyd y llwybr preifat sy'n arwain at Heaton Place.***


## 15. Heaton Place

Sylwch ar y ddau afal pîn ar y pileri mynediad sy'n debyg i'r rhai a welsoch yn gynharach ar y tŷ ar Bromenâd Cayley (10) a ddyluniodd y pensaer lleol blaenllaw Colwyn Foulkes iddo ef ei hun. Rhydd hyn gliw inni mai Colwyn Foulkes a ddyluniodd y stad hyfryd hon hefyd. Fe'i codwyd ar ôl y rhyfel gyda rhoddion cyhoeddus er mwyn darparu tai ar gyfer yr henoed lleol a fu'n gwasanaethu'r gymuned ar hyd y blynyddoedd. Er bod yr adeiladau'n edrych yn debyg iawn, os edrychwch ar y placiau ar bob pen iddynt, fe welwch chi iddynt gael eu hadeiladu dros gyfnod o amser, wrth i'r arian gael ei godi'n raddol. Wrth i chi adael y stad, sylwch fod dwy yn rhagor o'r afalau pîn yn coroni'r pileri!





# *Taith Gerdded Treftadaeth* Llandrillo-yn-Rhos



***Trowch i'r chwith ar Ffordd Digby. Yna trowch i'r dde ar Ffordd Tan-y-Bryn.***

## 16. Woodside Grange

Sylwch ar Woodside Grange gyferbyn â chi (cartref gofal preswyl erbyn hyn). Dyma enghraifft dda o'r tai mawr o ddiwedd oes Fictoria a arferai sefyll ar y ffordd hon, mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu dymchwel erbyn hyn. Dynion busnes llwyddiannus o Fanceinion a Lerpwl fyddai'n eu codi gan mwyaf. Byddai "trenau clwb" arbennig yn mynd bob dydd o Orsaf Bae Colwyn i Fanceinion a Lerpwl gan gludo'r bobl hyn i'w gwaith yn y steil a'r cysur oedd yn briodol i'w cyfoeth yn eu tyb hwy!



Er bod un pen i Ffordd Tan-y-Bryn wedi ei chau i gerbydau erbyn hyn, bu'n dramwyfa bwysig ar un adeg ac roedd yn un o'r llwybrau canoloesol a arferai fynd drwy'r ardal yn y dyddiau ymhell cyn codi Llandrillo-yn-Rhos. Yn wir mae'n bosib bod y trac yn hŷn na hynny, gan fod darnau arian Rhufeinig wedi eu darganfod ar ddau safle gwahanol yn y cyffiniau, ynghyd ag Amffora Rufeinig mewn cyflwr rhyfeddol o dda o'r ganrif 1af. Jar storio Rufeinig fawr yw hon tua metr o daldra, gyda gwaelod pigfain a dau ddwrn a ddefnyddid i gludo gwin ac olew olewydd. Mae amffora o'r fath yn beth eitha' prin, ac ychydig iawn ohonynt sydd wedi eu darganfod yn gyfan ym Mhrydain. Fe'i darganfuwyd yn ddwfn yn y ddaear ym 1960 pan godwyd byngalo newydd. Ni wyddai ei berchnogion newydd ei bod mor hynafol a bu yn eu gardd nhw am 25 o flynyddoedd! Mae'n syndod na chafodd ei difrodi yn y cyfnod hwn cyn i rywun sylweddoli beth ydoedd. Bellach mae'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.



*Gyferbyn â Ffordd Rhos, ceir trac â'r arwydd Gwarchodfa Natur Leol Bryn Euryn. MAE HWN YN ARWAIN AT ESTYNIAD B. Llwybr cylchog gydag arwyddion yw hwn ("Llwybr y Copa") tua milltir o hyd. Mae'r Cyngor wedi llunio taflen ragorol am y daith gerdded hon (a elwir yn "Warchodfa Natur Leol Bryn Euryn"), ac mae ar gael ar-lein. Mae'r llwybr yn esgyn ryw 100 metr hyd at gopa'r bryn ac mae rhai dringfeydd a disgynfeydd serth iawn, a all fod yn llithrig ar ôl iddi fwrw glaw. Er hynny, mae'n werth yr ymdrech, bydd yn eich tywys heibio adfeilion plasty canoloesol Llys Euryn, trwy goetiroedd a glaswelltir, at y fryngaer o'r chweched ganrif ar y copa gyda'i olygfeydd anhygoel, cyn dod â chi'n ôl i'r man cychwyn. Mae rhai meinciau ar y llwybr i chi gael gorffwys, os bydd angen!*

*I AROS AR Y PRIF LWYBR, EWCH YN SYTH YMLAEN AR FFORDD TAN Y BRYN A SYMUD I SAFLE RHIF 20 AR DUDALEN 23*

*Os ydych am ddilyn yr estyniad hwn, cerddwch ar hyd y trac am ryw 25 llath, yna trowch i'r dde gan ddilyn arwyddbost Llwybr y Copa (gyda'r saeth werdd) i fyny'r stepiau. Dilynwch y llwybr nes dewch chi at adfeilion Plasty Llys Euryn.*

## 17. Adfeilion Plasty Llys Euryn

Dyma safle'r plasty caerog a godwyd gan Ednyfed Fychan yn y drydedd ganrif ar ddeg, sydd bellach yn adfeilion. Mae bwrdd arddangos diddorol gan Gyngor Conwy'n nodi hanes y safle. Yn ei ddydd, roedd Ednyfed yn un o'r dynion pwysicaf yng Nghymru, ac ef oedd llaw dde a chynghorydd Llywelyn Fawr. Un o'i ddisgynyddion oedd Owain Tudur, taid Harri VII, sy'n cysylltu Llandrillo-yn-Rhos unwaith yn rhagor â hanes Prydain. Mae'n debyg y llosgwyd yr adeilad gwreiddiol gan Owain Glyndŵr ym 1409, ond fe'i hailgodwyd yn ddiweddarach. Er yr anffawd hon, mae'n debyg iddo ffynnu eto ar ôl ei ailgodi ac fe ddaeth yn eiddo i'r teulu Conwy. Mae bardd Cymraeg o'r 15fed ganrif yn disgrifio gogledd Cymru fel "gwlad o gwrw, medd a gwin," gan ddweud mai tŷ Huw Conwy yw'r lle y dylai'r bardd sychedig droi ato ac felly mae'n amlwg ei fod yn enwog am ei letygarwch yn yr oes honno. Mae'n anodd dychmygu'r gwleddoedd canoloesol hyn o edrych ar yr adfeilion sydd yno heddiw!



***Ewch yn eich blaen ar hyd y Llwybr heibio'r adfeilion, a sylwch ar yr hen chwarel islaw i chi ar y chwith. Pan ddewch chi at dŷ, trowch i'r dde a dilynwch "Lwybr y Copa". Ar ôl tua 100 llath, trowch tua'r chwith wrth y saeth werdd sy'n nodi "Llwybr y Copa". Dilynwch y llwybr hwn wrth iddo ymdroelli trwy goetiroedd braf. Ar ôl oddeutu 10 munud, byddwch yn dod at fainc, ac yn dilyn hynny ail fainc. Cymerwch seibiant yma i fwynhau'r olygfa (ac o bosib i orffwys!).***

Mae'r dyffryn cul oddi tanoch yn rhan o lwybr cyfathrebu naturiol o Loegr i Gonwy a Môn a thu hwnt. O'ch golygfan, gallwch weld sut mae'r rheilffordd a Ffordd Gyflym yr A55 yn rhedeg ar ei hyd. Anfantais hynny yw ei fod hefyd wedi bod yn daith naturiol i fyddinoedd oedd yn goresgyn. Mae hyn yn rhoi pwysigrwydd strategol i'r bryn a wnaeth ei gopa'n safle naturiol i gaer yn yr Oesoedd Tywyll. Yn gynharach, yn AD61, gorymdeithiodd y llengoedd Rhufeinig ar hyd y ffordd hon wrth deithio i dawelu'r derwyddon yn eu cadarnle ym Môn. Fodd bynnag, ymosodwyd arnynt yn y dyffryn sydd islaw i chi, a lladdwyd eu dirprwy arweinydd, Sempronius yn y frwydr. Hyd y diwrnod hwn, yr enw ar y dyffryn hwn yw Nant Sempyr, enw sy'n dal i'n hatgoffa ni am safle ei farwolaeth.

***Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr nes cyrhaeddwch gopa'r bryn, Bryn Euryn.***

## 18. Bryn Euryn

Mae'r copa hwn wedi ei nodi â thrigbwynt concrid sy'n rhan o'r rhwydwaith cenedlaethol a godwyd gan yr Arolwg Ordnans ar gyfer llunio eu mapiau o'r Deyrnas Unedig yn y dyddiau cyn cyfrifiaduron. O ystyried mor fach yw'r bryn (131 metr uwchben lefel y môr), mae'r golygfeydd yn rhagorol. Edrychwch allan dros y môr i weld holl rychwant Bae Colwyn. Yna edrychwch dros dref Bae Colwyn i weld coetir hynafol Coed Pwllycrochan. Yna trowch gyda'r cloc yn araf i weld panorama Eryri, mynydd Conwy, Môn ac Ynys Seiriol, y Gogarth Fawr a'r Gogarth Fach. Cewch drem aderyn ar Landrillo-yn-Rhos gyda'i morglawdd hynod a'r harbwr bychan islaw i chi. Mae fferm wynt fawr i'w gweld yn glir hefyd, yn meddiannu'r awyr i ryw raddau ond yn ychwanegu elfen fodern i'r morlun.

Mae gwaith cloddio wedi profi bod bryngaer Frythonig-Rufeinig ar y safle hwn hefyd. (Gallwch weld olion yr hen waliau o hyd os edrychwch yn ofalus). Codwyd hon yn y 5ed neu'r 6ed ganrif gan un o'r "brenhinoedd" lleol a gipiodd rym ar ôl ymadawiad y Rhufeiniaid – Cynlas Goch oedd ei enw mae'n debyg. Nid oedd Cynlas yn gymeriad hollol ddilychwin – gadawodd ei wraig er mwyn priodi ei chwaer, y bu'n rhaid iddo ei llusgo o'r lleiandy. Mae'r mynach a'r hanesydd Gildas, a ysgrifennai yn y 6ed ganrif, yn disgrifio Cynlas fel "Arth, lleiddiad rhudd a cherbydwr Din Arth". Mae'r disgrifiad hwn wedi peri i rai gysylltu'r gaer hon â'r Brenin Arthur, er nad yw'r disgrifiad o Cynlas

yn gydnaws â'r ddelwedd Arthuraidd! Er hynny, yn y canol oesoedd, enw'r plwy canoloesol lle saif y gaer oedd "Dineirth", sy'n rhoi rhyw gefnogaeth dila i'r traddodiad Arthuraidd. Eto mae bwrdd arddangos diddorol iawn yma sy'n cynnig rhagor o wybodaeth ac sy'n dangos darlun o'r gaer fel yr oedd hi.



Bu'r bryn yn safle milwrol eto ym 1940 pan sefydlwyd man gwylio a gorsaf radar yno i chwilio am awyrennau Almaenaidd oedd ar eu ffordd i ollwng bomiau ar Lerpwl, gan ddangos pwysigrwydd strategol naturiol y bryn unwaith yn rhagor. Mae olion llawr concrid yr adeilad o'r Ail Ryfel Byd i'w gweld o hyd ar y copa.

***O'r trigbwynt, cerddwch yn syth yn eich blaen am oddeutu 30 llath i gyfeiriad y môr at farciwr y llwybr a dilynwch y llwybr cylchog yn ôl i'r dechrau gan ddilyn yr arwyddion. Wrth i chi ddisgyn hyd ochr y bryn, sylwch ar eglwys ganoloesol y plwy mewn safle amlwg oddi tanoch. Byddwn yn ymweld â hon cyn bo hir. Sylwch hefyd ar y cwrs golff isel a'r nant sy'n rhedeg trwyddo oddi tanoch. Os nad ydych chi'n bwriadu cerdded estyniad C, darllenwch y nodiadau am y cwrs golff (24) a Chei Madog (25) i ddysgu am y pethau hanesyddol a ddigwyddodd yma ar y tir o dan eich traed. Wrth y tŷ, ewch drwy'r gât. Yma mae dewis gennych. Mae'r llwybr sy'n fforchio i'r dde'n haws ond ychydig yn hirach. Mae'r un i'r chwith yn gyflymach, ac yn mynd i lawr grisiau.***

## 19. Hen Chwarel

Sylwch ar yr hen chwarel ar y chwith i chi ar waelod y bryn. Dechreuodd hon yn y 1840au, ac roedd yma reilffordd a wagenni'n cael eu tynnu gan geffylau i gludo'r cerrig i lanfa fach yn Llandrillo-yn-Rhos, gan fynd i lawr Ffordd Rhos sydd yn union o'ch blaen chi.

***Trowch i'r chwith ar ddiwedd y trac ac ewch yn eich blaen ar hyd Ffordd Tan-y-Bryn nes i chi gyrraedd Hickory's ar y dde.***

## 20. Hickory's

Ail frandiwyd Hickory's yn ddiweddar o'i enw traddodiadol "Tafarn y Llong". Codwyd yr adeilad deniadol hwn gyferbyn â'r eglwys gan Whitehall Dodd – gwelwch (23). Codwyd tafarn wreiddiol Y Llong ym 1736 ac roedd ar yr ochr arall i'r ffordd nes i Whitehall Dodd ei dymchwel a'i symud i'w safle presennol ym 1874.



***Trowch i'r chwith i Ffordd Llandudno, croeswch y ffordd ac ewch i fynwent Eglwys Plwyf Llandrillo drwy'r porth mynwent hynod sy'n dyddio o'r 17eg ganrif.***

## 21. Eglwys Plwyf Llandrillo

Bu eglwys ar y safle hwn ers y 13eg ganrif o leiaf, pan roes y Pab drwydded i Ednyfed Fychan (gwelwch **17. Llys Euryn** uchod) godi capel preifat yma, fel y "gellid canu offerennau dros ei enaid ar ôl ei farw hyd byth". Erys rhai olion o'r capel gwreiddiol o'r 13eg ganrif o hyd yn yr adeilad presennol, y mae'r rhan helaethaf ohono'n dyddio o ddechrau'r 16eg ganrif. Mae'r bedyddfaen canoloesol yn hynafol iawn hefyd – o bosib o oes y Normaniaid.

Bu'r eglwys yn ganolbwynt i blwyf anferth ar un adeg, ond heddiw mae'n gwasanaethu Llandrillo-yn-Rhos yn unig. Cafodd yr eglwys ei gwyngalchu i fod yn dirnod amlwg i forwyr allan ar y môr. Mae'r tŵr yn ddiddorol tu hwnt. Fel y gwelwch, mae ei siâp yn anarferol (nid oes ond un arall tebyg iddo yng Nghymru.) Cafodd ei ailgodi ym 1552 ac mae ganddo olygfeydd helaeth o Fôn yn y gorllewin hyd at y Parlwr Du yn y dwyrain. Sylwch ar y tŵr bach sgwâr yn y gornel yn y pen de-orllewinol. Yn lleol, gelwir hwn yn "gadair y Rheithor". Roedd yn fan gwylio ac anfon arwyddion. Mae'n anodd dychmygu heddiw bod ymosodiadau gan fôr-ladron yn broblem ddifrifol ar y rhan hon o'r arfordir yn yr 17eg ganrif (yn enwedig môr-herwyr o Ogledd Affrica!). Roedd tŵr yr eglwys yn rhan o gadwyn o dyrau arwyddo a godwyd ar hyd yr arfordir hwn i rybuddio am ymosodiadau môr-ladron.



Mae nifer o feddau diddorol yn y fynwent. Y mwyaf enwog efallai yw bedd HAROLD LOWE – y swyddog arwrol ar y Titanic a oedd yng ngofal yr unig fad achub a ddychwelodd i geisio achub y bobl oedd yn boddi. (I ddarganfod ei garreg fedd, trowch i'r dde wrth fynd allan o borth mynwent deniadol y fynwent sy'n dyddio o'r 17eg ganrif ac ewch yn ôl i mewn i'r fynwent trwy'r gât nesaf, trowch i'r chwith a cherddwch am ryw bum llath ar hugain. Mae ei fedd ar y dde, ger y llwybr.)




***Trowch i'r chwith wrth fynd allan o'r fynwent a cherddwch yn ôl ar hyd Ffordd Llandudno. Ar y chwith i chi, saif y Ficerdy mawr ger yr eglwys.***

## 22. Ficerdy

Dyma o leiaf y trydydd ficerdy ar y safle hwn. Bu i brotestwyr fygwth ffrwydro'r ficerdy blaenorol yn ystod "rhyfel y degwm", am fod y ficer, William Venable Williams, yn gwrthod gostwng y degwm. Gwelsom ei gofgolofn yn gynharach ar y daith gerdded ar lan y môr (7). Yn ddiddorol ddigon, darganfuwyd ffynnon fawr wedi ei leinio â cherrig (63 o droedfeddi o ddyfnder) yn union y tu ôl i'r ficerdy pan godwyd y tai newydd ym 1964, ond does dim yn hysbys am ei hanes.

***Ewch yn eich blaen ar hyd Ffordd Llandudno.***

Ar eich chwith sylwch ar y STAD DAI. Codwyd hon rhwng 1952 a 1956 a chafodd hon hefyd ei dylunio gan Colwyn Foulkes. Mae'n adnabyddus am ei "byrth ysgafn galon" a'r cerfluniau o gymeriadau o Alice in Wonderland.




***Trowch i'r chwith ar Ffordd Rhos a cherddwch yn ôl i gyfeiriad y môr.***

Dyma un o'r ffyrdd hynaf yn Llandrillo-yn-Rhos. Mae wedi ei marcio'n glir fel lôn ar fap o 1763. Mae'n debyg y bu hen gei a harbwr bach wrth ei phen ar un adeg ac fe agorwyd y ffordd hon er mwyn ei gysylltu â Llys Euryn (gwelwch 16 uchod).

***Oedwch y tu allan i rifau 60-64.***

## 23. Bythynnod Carreg

Cafodd y bythynnod carreg diddorol yma eu hadeiladu ym 1857 i wasanaethu'r chwarel a welsom ym Mryn Euryn (gwelwch 19) a gweithwyr eraill y stad. Y llythrennau sydd

wedi eu cerfio ar du blaen y bythynnod yw llythrennau blaen enw Whitehall Dodd a oedd yn berchen ar yr holl stad o amgylch ar y pryd ac y gwelir ei enw yn enwau'r ffyrdd lleol. Arferai'r rheilffordd gyntaf yn Llandrillo-yn-Rhos redeg y tu cefn i'r tai hyn – trac cyntefig a cheffylau'n tynnu'r wagenni i gludo cerrig o'r chwarel ym Mryn Euryn i gei o'r 19eg ganrif ar lan y môr. Mae olion arglawdd yr hen reilffordd i'w gweld o hyd yng ngerddi cefn rhai o'r tai ar Ffordd Rhos, ac mae pobl leol wedi darganfod nifer o hen bedolau ar y llwybr.



***Ewch yn eich blaen at rifau 56 a 58.***

Mae'r bythynnod cerrig hyn ychydig bach yn fwy ymarferol eu naws ac mae'r rhain hefyd yn dyddio o'r amser cyn codi'r rhan fwyaf o Landrillo-yn-Rhos. Bythynnod clwm oedd y rhain yn wreiddiol ar gyfer gweision fferm yn Aberhod (gwelwch 8 uchod), yn y dyddiau pan oedd yn fferm. Roedd yr ardal o gwmpas yn gaeau agored. Gwelir hyn yn nhelerau'r brydles a roddwyd i'r tenantiaid. Yn dechnegol, cânt gadw dau fochyn o hyd a physgota yn y môr! - Hawliau hwylus iawn i drigolion y 19eg ganrif, ond nid ydynt mor werthfawr heddiw!

***Trowch i'r chwith ar Ffordd Elwy. Pan fydd y ffordd yn gwyro ychydig i'r chwith, croeswch y ffordd ac ewch i mewn i'r parc wrth ymyl tŷ to gwastad (a godwyd yn yr arddull fodernaidd). Trwy'r coed ar eich chwith, fe welwch chi Glwb Criced Bae Colwyn.***

Agorwyd y clwb criced ym 1924, ac mae'n dal i chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymuned leol. Mae'n dal i gynnal gemau pwysig, megis y gêm sirol reolaidd rhwng Morgannwg a Swydd Gaerhirfryn. Croesawyd tîm India'r Gorllewin yma ym 1984 pan oeddynt ar daith.

***Dilynwch y llwybr i lawr heibio'r cyrtiau tennis hyd at y ffordd.***

Os edrychwch o'ch cwmpas, fe synhwyrwch eich bod chi mewn dyffryn bach. Dyma wely Afon Ganol (sydd bellach wedi ei dargyfeirio). Arferai fynd i'r môr yn Llandrillo-yn-Rhos, ac mae tystiolaeth bod doc bychan ac iard gychod wrth ei cheg ganrifoedd yn ôl.

***Trowch i'r dde ar Penrhyn Avenue.***

Arferai'r hen lwybr tramiau i Landudno fynd ar hyd y ffordd hon. Wrth i chi fynd heibio'r fflatiau a elwir yn Barc Penrhyn, edrychwch ar y glaswellt ger y palmant ac fe welwch chi sylfaen fetel un o'r hen bileri a ddefnyddid i gynnal gwifrau'r tramiau yn yr awyr – a dyma'r cwbl sy'n weddill o'r hen lwybr tramiau bellach.



***Cymerwch y troad cyntaf i'r chwith ar Gilgant Colwyn. Ewch yn syth yn eich blaen i Goedlan Trillo. Sylwch ar RIFAU 4 a 6 AR Y DDE (13) – gweler y nodiadau uchod.***

***Ewch yn eich blaen i lawr y ffordd, yn ôl i Gapel Sant Trillo, eich man cychwyn. Os dymunwch, ac os ydych yn teimlo'n heini, gallwch droi i'r chwith a cherdded ESTYNIAD C (tua 40 munud). Croeswch y ffordd, fel y gallwch chi gerdded ar y llwybr o dan y ffordd, ger y môr. Yma cewch olygfeydd hyfryd o'r Gogarth Fach.***

Fe sylwch chi fod un pen i'r Gogarth Fach wedi ei fwyngloddio am galchfaen, peth ohono i adeiladu Llandrillo-yn-Rhos. Mynnodd Stadau Mostyn (oedd yn berchen ar y safle) i'r mwyngloddio gael ei wneud ar ochr Llandrillo-yn-Rhos i'r Gogarth Fach. Rhoddwyd yr amod

hwn ganddynt er mwyn sicrhau na fyddai dim anharddu ar yr olygfa o'r Gogarth Fach o gyfeiriad Llandudno (oedd yn eiddo iddyn nhw hefyd). Teg yw casglu nad oeddynt yn poeni rhyw lawer am yr olygfa o gyfeiriad Llandrillo-yn-Rhos!

Mae gan y Gogarth Fach fwy o hanes diddorol nag y byddech yn ei ddisgwyl. Ym 1891, canfuwyd sgerbwd merch o'r cyfnod Neolithig 5,500 o flynyddoedd yn ôl mewn hollt yn y graig (cafodd ei dadorchuddio yn ystod y gwaith chwarela oedd yn digwydd ar y pryd) gan ddangos bod pobl wedi byw yn yr ardal yn Oes y Cerrig. Mae'r sgerbwd i'w weld erbyn hyn yn Amgueddfa Llandudno.

Yn yr un modd, mae tystiolaeth o bresenoldeb y Rhufeiniaid yno hefyd. Ym 1873, canfuwyd jar priddlestr oedd yn cynnwys 5,000 o ddarnau arian Rhufeinig efydd yn Penrhyn Old Hall gerllaw, ac ym 1907 canfuwyd celc bychan arall o 550 o ddarnau arian Rhufeinig ar y Gogarth Fach ei hun.

Diddorol iawn yw'r hanes am ogof anghysbell ar y Gogarth Fach lle cuddiwyd gwasg argraffu Catholig yn ystod teyrnasiad y Frenhines Elizabeth. Cafodd ei sefydlu ym 1587 mewn ogof bell gan genhadwr Jeswit dirgel, gyda chymorth y sgweier Catholig lleol oedd yn byw gerllaw yn Penrhyn Old Hall. Defnyddiwyd y wasg hon i argraffu copïau o lyfr bach o'r enw “Y Drych Cristionogawl” – yn rhyfeddol, dyma oedd y llyfr Cymraeg cyntaf erioed i gael ei argraffu yng Nghymru – enwogrwydd rhyfeddol i'r Gogarth Fach anghysbell!

Canfuwyd y safle gan yr awdurdodau ym 1587, ond dihangodd bawb oedd wedi ymgymryd â'r fenter drwy ffoi ar y môr (wedi cael rhybudd mae'n debyg gan bobl leol oedd o'u plaid), gan adael ychydig o deip plwm ar lan y môr wrth ffoi.

Defnyddiwyd y Gogarth Fach yn yr Ail Ryfel Byd hefyd fel safle magnelfa danio. Defnyddiwyd y safle fel gwersyll ymarfer gan yr Ysgol Danio Arfordirol oedd wedi ei lleoli gerllaw ym Mhen Morfa Llandudno. Gallwch weld rhai o'r Magnelwyr Brenhinol ar y safle hwn ar y Gogarth Fach yn y llun o'r cyfnod ar y dde.



*Croeswch y ffordd lle mae'r cwrs golff yn dechrau ac edrychwch ar draws y maes golff.*

## 24. Safle Glaniad yr Awyren Gyntaf i lanio yng Ngogledd Cymru

Mae'r clwb golff yn dyddio o 1899, ond mae ei wir enwogrwydd yn deillio o'r ffaith mai yma oedd safle glaniad yr awyren gyntaf i lanio yng Ngogledd Cymru. Glaniodd yr awyren, sef awyren ddwbl Farmer Racer, ar gwrs golff Llandrillo-yn-Rhos prin ganllath o adeilad y clwb ei hunan (trwy ddamwain o bosib) ar 10 Awst, 1910, gan beri cryn syndod a phleser i'r bobl leol. Arloeswr awyrennau o'r enw Robert Lorraine oedd y peilot. Cychwynnodd ei daith yn sioe awyr Blackpool gan fwriadu sefydlu dwy record – y daith awyr hiraf dros y môr (63 o filltiroedd), a'r awyren gyntaf i lanio yng Nghymru. Bwriadai lanio yng Nghaergybi, a cheisio croesi Môr Iwerddon, ond gorfodwyd iddo lanio yma gan y tywydd gwael, gan roddi Llandrillo-yn-Rhos yn y llyfrau hanes.



*Trowch yn ôl am Landrillo-yn-Rhos, gan sylwi ar y bloc amlwg o fflatiau moethus a fydd, gobeithio, yn dwyn yr enw "CEI MADOG".*

## 25. Cei Madog

Ar adeg ysgrifennu hwn, roedd y fflatiau hyn wrthi'n cael eu hadeiladu ond, os byddent wedi eu cwblhau i'r cynllun a addewir gan y cwmni datblygu, dylai bod llechen, mainc, ogof ac efallai bwrdd gwybodaeth y tu allan i rif 3 i gofio "CEI MADOG". Y rheswm am hyn yw mai o'r safle hwn, yn ôl chwedloniaeth, yr hwyliodd Madog gyda'i ddwy long (Gorn Gwynant a Phedr Sant) ym 1170 i ganfod America 322 o flynyddoedd cyn Columbus!

Yn sicr, byddai'r nant a welwch ar y cwrs golff yn afon llawer mwy yn yr Oesoedd Canol, ac yn ddigon mawr i longau ei mordwyo. Mae tystiolaeth bod harbwr bach arni a hen gei lle'r oedd yr afon yn mynd i'r môr. Yn anffodus, defnyddiwyd gweddillion carreg y lanfa hon i adeiladu gardd gerrig y tŷ oedd ar y safle cyn y fflatiau newydd.

Dywed y traddodiad bod y Tywysog Madog wedi dychwelyd rai blynyddoedd yn ddiweddarach gan ddweud ei fod wedi darganfod gwlad newydd. Yna casglodd lynges o 10 o longau yn llawn gwladychwyr, ac ni welwyd mohono fyth wedyn. Er nad oes modd profi'r chwedl, mae carreg goffa yn Alabama'n nodi'r fan lle honnir iddo ymsefydlu. Go brin y bydd unrhyw un nawr yn gallu profi a yw'r chwedl yn wir ai peidio, ond mae'n anhygoel meddwl y gallasai'r lle hwn fod yn dyst i ddigwyddiadau mor unigryw yn hanes Cymru – mordwywr arloesol a ddarganfu America, a pheilot arloesol a laniodd yr awyren gyntaf yng Nghymru!

***Ewch yn eich blaen ar hyd y palmant nes dewch chi at Hen Gât y Gyllideb (147 Marine Drive).***

## 26. Hen Gât y Gyllideb (147 Marine Drive)

Mae hwn yn dŷ deniadol iawn yr olwg. Nodwch gynllun atyniadol y porth er enghraifft. Diddordeb arbennig y tŷ hwn fodd bynnag yw'r stori ddiddorol (a gwir) ynglŷn â sut y cafodd ei enw. Ym 1909, pan oedd Lloyd George yn Ganghellor y Trysorlys, cyflwynodd gyllideb arbennig o radicalaidd a gafodd y llysenw "Cyllideb y Bobl".

Ymysg amrywiaeth o newidiadau sylweddol, cyflwynodd y gyllideb bensiynau i'r henoed am y tro cyntaf ym Mhrydain – diwygiad cymdeithasol cwbl radicalaidd. I dalu am y mesurau hyn, cyflwynodd dreth ar werthoedd tir oedd yn codi tâl ar y bobl gyfoethocach mewn cymdeithas. Bu llawer o anfodlonrwydd ynglŷn â hyn ymhlith perchnogion tir ar draws y Deyrnas Unedig a phenderfynodd Mr. Horton, oedd yn berchen ar y rhan fwyaf o'r tir yn Llandrillo-yn-Rhos bryd hynny, gan gynnwys y ffordd hon, osod tollborth yma ar y Promenâd fel ymgyrch i godi arian i dalu am y dreth newydd oedd ganddo i'w thalu, a'i alw'n "Dollborth y Gyllideb" i bwysleisio ei bwynt – a dyna sut y cafodd y tŷ ei enwi. Gwerthodd y ffordd a'r tollborth i'r

Cwmni Tramiau ym 1911 pan adeiladwyd y llwybr tramiau newydd. Fodd bynnag, daliodd y Cwmni Tramiau i godi tollau ar geir a ddefnyddiai'r ffordd, nes iddynt fynd yn fethdalwyr ym 1961. Ni chafodd y tollborth ei ddileu tan 1963 pan brynodd y Cyngor y ffordd a rhoi wyneb iawn arni am y tro cyntaf. Codwyd swllt (5c) ar geir (a cheiniog ar bramiau!) ar adeg ei chau. Mae'r llun isod yn dangos y tollborth gwreiddiol.




***Ewch ymlaen ar hyd Marine Drive. Ar ôl croesi Ffordd yr Abaty, edrychwch i'r dde i weld golygfa hyfryd o eglwys plwyf Llandrillo a Bryn Euryn, y buoch chi'n ymweld â nhw eisoes.***

O'r fan yma, gallwch werthfawrogi pa mor amlwg oedd yr eglwys wyngalchog i forwyr mewn canrifoedd blaenorol.

***Ewch yn eich blaen ar hyd Marine Drive nes dewch chi at y man cychwyn unwaith eto wrth Gapel Sant Trillo. Rydych chi'n haeddu seibiant, felly beth am i chi fynd yn eich blaen i Landrillo-yn-Rhos am baned o de yn un o'r caffis braf sydd yno os nad ydych chi wedi gwneud hynny eisoes.***

## Cefndir y Grŵp

Grŵp o wirfoddolwyr a chynrychiolwyr o fudiadau lleol yw Grŵp Treftadaeth Bae Colwyn. Ffurfiwyd y grŵp er mwyn ymgysylltu â phob cenhedlaeth yng nghymuned Bae Colwyn, a'r nod yw gwneud treftadaeth y dref yn fwy hygyrch.

Yn ogystal â Theithiau Cerdded Treftadaeth ac, fel rhan o brosiect Hanes Llafar, mae'r Grŵp yn casglu ac yn cofnodi atgofion pobl o Fae Colwyn. Mae rhai o'r atgofion hyn ar gael mewn e-lyfr. Yn ogystal â hyn, mae pecyn Gweithgareddau Plant wedi cael ei gynhyrchu, ac mae Llinell Amser ar-lein yn y broses o gael ei ddatblygu.

Ymwelwch â gwefan y grŵp , www.colwynbayheritage.org.uk, neu ewch am dro i Lyfrgell Bae Colwyn yn Woodland Road West os hoffech ganfod rhagor.

## Cydnabyddiaethau

*Ysgrifennwyd y sylwadau gan Mr Ian Reid*

*Darparwyd y llun o'r Milwyr ar y Gogarth Fach (lleoliad 23) gan yr Home Front Museum, Llandudno*

*Darparwyd y lluniau eraill gan Lyfrgell Bae Colwyn, Mr D M Roberts a Mr John Evans*

## Ap Llwybr Cerdded Realiti Estynedig 'Dychmygu'

Mae'r llyfrynnau hyn wedi ysbrydoli datblygiad ap Llwybr Cerdded Realiti Estynedig 'Dychmygu'. Mae'r profiad Realiti Estynedig cyffrous hwn, y gallwch ei lawrlwytho ar eich ffôn clyfar, yn dod â'r gorffennol yn fyw gyda straeon, lluniau a sain gan greu antur unigryw, ddiddorol a rhyngweithiol i dreftadaeth leol. Byddwch hefyd yn gallu agor fersiynau 'taith glywedol' o'r llyfrynnau drwy'r ap. Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion ar **www.llwybrdychmygu.com** neu drwy sganio'r y cod QR i gychwyn archwilio.

Wedi'i ariannu drwy Brosiect Dychmygu Bae Colwyn, gyda diolch i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cyngor Tref Bae Colwyn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

08/20

*Argraffwyd gan Handy-Office*